



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2016-2017

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dew-is a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://www.instagram.com/comisiwnphcymru)

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad	3
3. Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	4
5. Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd	17
6. Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2016-17	20
Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/17	32
Gwybodaeth cyfrif pennau	32
Recriwtio	35
Dysgu a Datblygu	38
Gweithdrefnau Cwyno	39
Gweithdrefnau Disgyblu	39
Y Rhai sy'n Gadael	40
Atodiad B: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2017-18	41
Atodiad C: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn	47

1. Cyflwyniad

Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwyf yn eiriolwr a llais annibynnol dros bobl hŷn sy'n 60 mlwydd oed a mwy, fel y'u diffinnir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Yn sail i'm gwaith mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ac mae hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn hanfodol i'm rôl statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerais yn ystod 2016-17 i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb statudol a amlinellir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Eglurir sut y byddaf yn sicrhau bod fy nhîm a minnau, wrth fwrw ymlaen â'n gwaith, yn ymgysylltu â phobl hŷn, yn eu deall ac yn eu cynnwys, yn eu holl amrywiaeth.

Nid un grŵp unffurf yw pobl hŷn. Maent yn cynrychioli holl amrywiaeth Cymru – yr amrywiaeth hwn yw ein hanfod fel cenedl ac mae i'w ddathlu. Rwy'n falch o fod yn Gomisiynydd dros BAWB o'n pobl hŷn a daliaf i weithio i hyrwyddo cydraddoldeb a gwarchod yr hawl i fyw bywydau ac iddynt werth, ystyr a phwrpas.



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2. Crynodeb o'r gofynion a phatrwm yr adroddiad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn awdurdod rhestredig dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a rhaid iddi lynu at y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Ymhlith y gofynion eraill o ran llunio adroddiadau roedd y gofyn am gyhoeddi, erbyn mis Ebrill 2012, Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ymgorffori amcanion penodol, ac wedyn gyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd. Rhaid cyhoeddi'r pumed adroddiad blynyddol hwn erbyn 31 Mawrth 2018 fan bellaf.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y dyletswyddau penodol i Gymru ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd:

- Mae Adran 3 yn egluro rôl y Comisiynydd
- Mae Adran 4 yn nodi'r modd y mae Dyletswydd Gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i fusnes craidd y Comisiynydd
- Mae Adran 5 yn amlinellu Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd
- Mae Adran 6 yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd i wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol gan ymgorffori'r dyletswyddau cyffredinol
- Atodiad A – Proffiliau'r gweithlu ar 31 Mawrth 2017
- Atodiad B – Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2017-18
- Atodiad C – Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Gellir gweld copïau o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ac adroddiadau blynyddol y gorffennol ar [wefan](#) y Comisiynydd.

3. Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Corfforaeth Undyn yw'r Comisiynydd a grëwyd dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n endid cyfreithiol annibynnol yn ei hawl ei hun ac yn awdurdod rhestredig i ddibenion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn amlinellu nifer o ddyletswyddau statudol i'r Comisiynydd.

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.

Defnyddia'r Comisiynydd ei statws i helpu gosod yr agenda ymysg pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, gan hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau.

Rôl allweddol i'r Comisiynydd yw bod yn eiriolwr grymus dros bobl hŷn, gan arwain ac ymyrryd mewn ystod eang a chynyddol o ddadleuon a phrosesau penderfynu ledled Cymru.

2. Hyrwyddo darpariaeth cyfleon i bobl hŷn yng Nghymru, a sicrhau nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn.

Hyrwydda'r Comisiynydd newidiadau i'r gyfraith, canllawiau ac arferion er mwyn dileu anghydraddoldeb. Cyflwyna ddelweddau realistig a chadarnhaol o bobl hŷn, gan gydnabod pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth.

Unigolion yw pobl hŷn, ac er bod ganddynt rai pryderon cyffredin, nid yw hynny'n lleihau eu statws fel unigolion. Ni ddylai fod un farn gyffredin am bobl hŷn, a cheisia'r Comisiynydd adlewyrchu hyn yn ei gwaith.

Hyrwydda'r Comisiynydd ddealltwriaeth o natur gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn ei ffurfiau mwyaf amlwg a'i ffurfiau mwy cuddiedig – ond llawn mor niweidiol – ac mae o'r farn fod mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu mewn modd effeithiol yn gam allweddol er mwyn symud ymlaen ar draws pob maes polisi, nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

3. Annog yr arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.

Ceisio'r Comisiynydd gyflawni hyn drwy sawl dull, gan gynnwys dod â phobl a thystiolaeth at ei gilydd a, lle bo angen, cyflawni gwaith ymchwil, er mwyn arddangos yr arfer gorau.

Yn bwysicaf oll, bydd yn pwysu dros ddarparu gwasanaethau rhagorol i bobl hŷn mewn modd eang a chyson. Bydd yn annog pobl i newid arferion sydd wedi hen ymsefydlu lle dangoswyd bod dulliau eraill yn gweithio'n well. Bydd yn annog darparwyr gwasanaethau i wynebu'r her o newid er mwyn gallu ateb anghenion

pobl hŷn yn well, e.e. rhoi cefnogaeth gynnar i bobl hŷn er mwyn eu harbed rhag mynd yn fwy dibynnol yn ddiweddarach.

4. Parhau i adolygu digonoldeb ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Adeilada'r Comisiynydd yr achos dros newid a chyflwynna'r achos hwn i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Sefydla beth yw'r problemau a'r cyfleon drwy ddod ag arbenigwyr cyfreithiol ac eraill at ei gilydd a manteisio ar brofiad a barn pobl hŷn.

Mae'r gyfraith yn rhan hollbwysig o sicrhau grym a gwarchodaeth i bobl hŷn ac o sicrhau unioni cam, ac eto mae'n aml yn gymhleth, yn ddryslyd, yn anodd manteisio arni ac angen ei diwygio. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi chwarae rôl gryf wrth argymhell newidiadau a fydd o fudd i bobl hŷn ac eraill.

Isod wele enghreifftiau o'r mathau o weithgaredd y mae'r Comisiynydd wedi ymwneud â nhw:

- Rhoi arweiniad ar y materion sy'n bwysig i bobl hŷn
- Codi proffil pobl hŷn o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Pwyso ar Lywodraeth Cymru
- Adolygu'r modd y bydd cyrff datganoledig yn cyflawni eu gwaith
- Cyhoeddi canllawiau a safonau
- Cynorthwyo unigolion i wneud cwynion neu sylwadau
- Comisiynu ymchwil neu helpu eraill i wneud hynny
- Cyflawni, comisiynu neu gynorthwyo eraill gyda gweithgareddau addysgol
- Cynnal archwiliadau (ymchwiliadau)
- Cyhoeddi canllawiau anstatudol
- Siarad dros newid deddfwriaeth, canllawiau ac arferion
- Siarad yn gyhoeddus am fethiannau mewn gwasanaethau
- Hyrwyddo ymarfer da

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen ac eithrio trwy gyngor a chymorth uniongyrchol a ddarperir i bobl hŷn trwy ein gwaith achosion a'r gwaith a arweinir gan y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cynnal digwyddiadau a chynhyrchu cyhoeddiadau. Mae a wnelo'r rhan fwyaf o waith y Comisiynydd â chydweithio ag eraill i sicrhau newidiadau mewn polisiau ac arferion.

Amlinellir gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer y presennol a'r dyfodol yn ei '[Fframwaith Gweithredu 2013-17](#)'.

4. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

4.1. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dyma dri nod y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a phob ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Gydraddoldeb.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd hebddi.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl sydd hebddi.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymdrin â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oed
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Anabledd
- Trawsrywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiria at briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond yn nghyswllt yr angen i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

At ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb, nid yw iaith (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) yn nodwedd warchoddedig. Fodd bynnag, cred y Comisiynydd fod angen i iaith gael ei thrin ar yr un lefel â nodweddion eraill. Er 25 Ionawr 2017, mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o [Fesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

Mae'r Safonau'n pennu nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â hwyluso ac annog y defnydd o'r iaith yn y gweithle. Rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol ar y gwaith o gyflawni'r Safonau. Mae copi o adroddiad y Comisiynydd ar gyfer 2016-17 i'w weld [yma](#).

Drwy ei gwaith, mae'r Comisiynydd hefyd yn ystyried effaith tlodi a natur wledig ardal ar fynediad cyfartal at wasanaethau.

4.2. Busnes Craidd

Fel corff sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae gan y Comisiynydd a'i staff amrediad o swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau gweinyddol eraill, gan gynnwys:

- Hyrwyddo buddiannau pobl hŷn, gan gynnwys herio gwahaniaethu, annog arferion gorau ac adolygu'r gyfraith.
- Sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru'n gwybod am y swydd.
- Recriwtio, cyflogi, hyfforddi a rheoli staff.
- Caffael gwasanaethau, gan gynnwys tendro am nwyddau a gwasanaethau fel ymchwil.
- Gwobrwyo, cydnabod a thalu i staff.
- Rhoi cymorth i bobl hŷn a hoffai wneud cwyn neu gais gerbron cyrff cyhoeddus neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4.3. Amddiffyn a Chraffu

4.3.1. Gwaith Achos

Mae'r Comisiynydd yn darparu cymorth uniongyrchol i unigolion drwy ei Thîm Gwaith Achos, a hynny fel arfer dros y ffôn, ond hefyd drwy negeseuon e-bost, llythyrau ac, mewn rhai achosion, cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Yn ystod 2016-17, rhoddodd y Comisiynydd gymorth a chefnogaeth i 372 o bobl hŷn, yn unol â'r pwerau a bennir yn Neddf y Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'r holl ymholiadau gan unigolion i'r Comisiynydd yn cael eu rheoli drwy System Rheoli Busnes, ac mae oedran, rhyw a dewis iaith y galwyr yn cael eu cofnodi ar y system honno. Gofynnir hefyd i'r galwyr a oes ganddynt unrhyw anghenion ychwanegol, er enghraifft nam ar y synhwyrâu, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu diwallu eu hanghenion yn briodol, a bod ein gwasanaethau ar gael iddynt yn yr un modd â phawb arall.

Mae'r broses awtomatig o fonitro amrywiaeth galwyr wedi'i chyfyngu i oedran, rhyw, anghenion cyfathrebu ac anghenion hygyrchedd, gan adlewyrchu'r ffaith bod mwyafrif y galwyr yn cysylltu â ni ar adeg o argyfwng yn eu bywyd, adeg sy'n aml yn llawn pryder a gofid, pan y gallai cwestiynau ychwanegol neu broses orfodol o fonitro nodweddion gwarchodedig greu rhwystr rhwng y galwr a'r gweithiwr achos.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion grŵp cynrychioliadol o bobl hŷn, gofynnir i'r rheiny sy'n cael cymorth gan weithiwr achos lenwi ffurflen cydraddoldeb, a dychwelyd y ffurflen hon gyda ffurflen gydsynio, sy'n rhoi caniatâd i'r Comisiynydd weithredu ar eu rhan. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei choladu a'i defnyddio i lenwi unrhyw fylchau posibl wrth geisio cyrraedd grwpiau o bobl hŷn, neu fylchau o ran safon y gwasanaeth a ddarparwn.

Y pum mater mwyaf cyffredin y cysylltwyd â ni yn eu cylch yn ystod 2016-17 oedd gofal preswyl, gofal, tai, gofal cartref, a cham-drin. Roedd llawer o'r achosion y bu'r Tîm Gwaith Achos yn ymdrin â nhw yn gymhleth iawn, ac yn golygu bod angen delio â nifer o asiantaethau gwahanol i ddatrys amrywiaeth eang o faterion ar ran pobl hŷn sy'n aml yn agored iawn i niwed.

4.3.2. Diogelu ac Amddiffyn Pobl Hŷn

Drwy gydol 2016-17, mae'r Comisiynydd wedi parhau ag amrywiaeth eang o waith i godi ymwybyddiaeth o natur y cam-drin a wynebir gan dros 40,000 o bobl hŷn bob blwyddyn, ynghyd â'r amgylchiadau a all beri i bobl hŷn ddod yn arbennig o agored i niwed, neu wynebu perygl o niwed.

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i weithio i sicrhau bod pobl hŷn sy'n wynebu perygl o niwed yn cael eu nodi mewn modd systematig, a bod y rheiny sy'n cael eu cam-drin yn cael eu cefnogi i gael yr help a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i adfer eu diogelwch a'u lles.

4.3.3. Seminarau a Chyflwyniadau Codi Ymwybyddiaeth

Gan adeiladu ar lwyddiant digwyddiadau tebyg a gynhaliwyd yn ystod 2014-15 a 2015-16, cynhaliodd y Comisiynydd chwe seminar ar ddiogelu er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r cam-drin a wynebir gan bobl hŷn. Roedd y seminarau, a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, Wrecsam, Llanrwst, Baglan, Aberhonddu a Chaerdydd, yn ymdrin â difrifoldeb ac effaith cam-drin, hawliau dynol, cam-drin mewn cymunedau pobl dduon ac asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau pobl lesbiaidd, deurywiol, trawsrywiol a chwilfrydig, rôl hanfodol eiriolaeth, a'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n cael eu cam-drin.

Am y tro cyntaf, roedd y seminarau'n cynnwys fideo am oroeswr cam-drin domestig hŷn, gan ychwanegu dimensiwn newydd a grymus a oedd yn dangos realiti'r cam-drin y mae pobl hŷn yn ei ddioddef.

Cafodd cynnwys y seminarau ei werthuso gan Agored Cymru a'i achredu gan Farc Ansawdd y corff dyfarnu hwnnw, gan alluogi'r cyfranogwyr i ennill oriau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Roedd cyfanswm o 412 o gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl hŷn, a throstynt, yn bresennol yn y seminarau. Roedd yr adborth o'r seminarau yn gadarnhaol tu hwnt, a chafwyd canmoliaeth arbennig i safbwynt amlasiantaethol y siaradwyr a dyfnder y wybodaeth a roddwyd.

4.3.4. Cyflwyniadau a Digwyddiadau Eraill i Godi Ymwybyddiaeth

Yn ogystal â'r seminarau uchod, yn 2016-17 rhoddwyd cyflwyniadau codi ymwybyddiaeth, a oedd yn amlygu cam-drin pobl hŷn fel mater allweddol ac yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella bywydau'r rheiny y mae cam-drin yn effeithio arnynt, i'r rhanddeiliaid canlynol:

- Heddlu Gwent (dros 700 o swyddogion rheng flaen yr heddlu)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (dros 80 o staff rheng flaen; rhoddir cyflwyniadau pellach yn ystod 2017-18)
- Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cynhadledd Capita ar Ddiogelu
- Cynhadledd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar Gam-drin Ariannol
- Urdd y Merched Trefol, Caerdydd

At hynny, cymerodd fy Arweinydd Diogelu hefyd ran yn y digwyddiadau ymgysylltu canlynol i godi ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb ac effaith y cam-drin a wynebir gan bobl hŷn:

- Cyfarfodydd diogelu bord gron â'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- Digwyddiad 'Question Time' Age Cymru
- Digwyddiad gweminar SafeLives UK ar gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn
- Cyfarfod Grŵp Llywio Gofyn a Gweithredu Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Cyfarfodydd fforwm rhanddeiliaid Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
- Cyfarfodydd Grŵp Llywio Byw Heb Ofn (Llinell Gymorth Cam-drin Domestig)
- Adolygiad Panel Craffu Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg y Swyddfa Gartref o achosion sy'n ymwneud â phobl hŷn
- Grŵp Diogelu Rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Gwaith amlasiantaethol Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu modiwl hyfforddi arloesol (Hydra) ar gam-drin domestig ymhlith pobl hŷn
- Digwyddiad ymgynghori ynghylch y ddogfen strategaeth ddiwygiedig ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig

4.3.5. Gwaith gyda'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol

Cyfarfu'r Comisiynydd ag aelodau'r Bwrdd Diogelu Cenedlaethol newydd i bennu nodweddion hanfodol system ddiogelu effeithiol.

Roedd y Comisiynydd yn glir bod angen tystiolaeth amser real o ddysgu sy'n arwain at newidiadau di-oed ac effeithiol i arferion, a hynny ar lefel leol a chenedlaethol, a bod angen i safbwyntiau unigolion a'r gymuned ehangach gael eu defnyddio'n barhaus i brofi a gwella arferion.

Roedd y Comisiynydd hefyd yn glir bod angen i linell sylfaen glir a gwahaniaethol o fynychder a nifer yr achosion o fathau gwahanol o gam-drin (cam-drin domestig, cam-drin oedolion, ac ati) gael ei sefydlu a'i defnyddio i ategu cynlluniau lleol, gan bennu targedau clir ac uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac adrodd arnynt.

Nododd y Comisiynydd bwysigrwydd sefydlu mecanweithiau i gomisiynu ymchwil ranbarthol effeithiol ar ddiogelu, a mesur effaith yr ymchwil hon ar wybodaeth ac arfer. At hynny, amlygodd y Comisiynydd bwysigrwydd tystiolaeth nid yn unig i ddangos bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â materion hanesyddol a pharhaus mewn perthynas â rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau, ond hefyd fod gan weithwyr proffesiynol wybodaeth briodol am ddiogelu.

Yn olaf, roedd y Comisiynydd yn glir bod yn rhaid i safbwyntiau a lleisiau unigolion, yn ogystal â'r gymuned ehangach, gael eu defnyddio'n barhaus i brofi a gwella arferion, a hynny ochr yn ochr â thystiolaeth glir o fynediad at wasanaethau eirioli, er mwyn sicrhau bod hawliau pobl sy'n agored i niwed yn cael eu cynnal a bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Er mwyn helpu i sicrhau bod dull gweithredu safonol yn cael ei fabwysiadu ledled Cymru, cafodd y wybodaeth hon hefyd ei rhannu â'r holl Fyrddau Diogelu Oedolion Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu eu cynlluniau strategol.

4.3.6. Cyfeillion yn Erbyn Sgamiau

Gan adeiladu ar waith y Comisiynydd yn ystod 2015-16 i sefydlu Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau (WASP), ym mis Hydref 2016 gweithiodd y Comisiynydd mewn partneriaeth â'r Safonau Masnach Cenedlaethol i lansio'r fenter Cyfeillion yn Erbyn Sgamiau yng Nghymru.

Diben Cyfeillion yn Erbyn Sgamiau yw amlygu effaith sgamiau, herio canfyddiadau o'r rhesymau pam y mae pobl yn cael eu twyllo gan sgamiau, ac ysbrydoli camau i amddiffyn pobl rhag sgamwyr, troseddwr sy'n aml yn manteisio ar yr aelodau mwyaf agored i niwed o gymdeithas.

Roedd amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector ariannol a'r trydydd sector yn bresennol yn y digwyddiad lansio, a chafwyd adduned ganddynt o ran yr hyn y byddent yn ei wneud i fynd i'r afael â sgamiau yn eu cymunedau, a'r modd y byddent yn codi ymwybyddiaeth o'r fenter Cyfeillion yn Erbyn Sgamiau.

Yn dilyn y lansiad, aeth y Comisiynydd hefyd ati i ysgrifennu i gyrrff cyhoeddus ledled Cymru, er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt am y fenter Cyfeillion yn Erbyn Sgamiau, a'u hannog i fod yn rhan ohoni.

Erbyn hyn, mae sesiynau Cyfeillion yn Erbyn Sgamiau yn cael eu darparu ledled Cymru, gan alluogi sefydliadau ac unigolion i ddysgu am y mathau gwahanol o sgamiau a ddefnyddir i dwyllo pobl a dwyn oddi wrthynt, ynghyd â sut i adnabod dioddefwyr a'u cefnogi. Mae cyfleoedd dysgu ar-lein hefyd ar gael i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y rheiny nad ydynt yn gallu mynd i sesiwn ymwybyddiaeth.

4.4. Lles a Grymuso

4.4.1. Dylanwadu ar Bolisi, Deddfwriaeth ac Arfer

Mae Tîm Lles a Grymuso'r Comisiynydd yn dylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau ar y lefel uchaf ledled Cymru, gan gynrychioli a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn i gyrff cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Tîm Lles a Grymuso yn cadw'n ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf nid yn unig o ran oedran, ond hefyd o ran materion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig eraill.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi parhau i gyfarfod â Gweinidogion Cymru i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, ac y gwrandewir arnynt, a bod polisiau ac arferion yn adlewyrchu'r materion hynny a wynebier gan bobl hŷn ac yn diwallu eu hanghenion.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn gyfle i'r Comisiynydd godi pryderon am feysydd o ddeddfwriaeth nad ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar bobl hŷn, a chytuno ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau'r newid sy'n ofynnol.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi cyfarfod â Chadeiryddion nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol i amlygu meysydd ymchwil posibl, ac wedi croesawu nifer o ymchwiliadau gan bwyllgorau sydd wedi bod yn arbennig o berthnasol i bobl hŷn.

4.4.2. Ymatebion i Ymgynghoriadau

Mae'r Tîm Lles a Grymuso wedi ymateb i amrywiaeth eang o ymgynghoriadau ar ran y Comisiynydd yn ystod 2016-17, gan ddefnyddio lleisiau a phrofiadau pobl hŷn i sicrhau bod polisiau ac arferion arfaethedig yn adlewyrchu eu hanghenion, ac y byddant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Ymatebodd y tîm i gyfanswm o 25 o ymgynghoriadau yn ystod 2016-17, gan ymdrin â phynciau tebyg i fframwaith mesur sengl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol, cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru, a blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwella Gofal Cymdeithasol Cymru.

4.4.3. Tystiolaeth a Roddwyd i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Drwy gydol 2016-17, rhoddodd y Comisiynydd dystiolaeth ar gyfer nifer o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i gynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, Awst 2016
- Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Medi 2016

- Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Medi 2016
- Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Medi 2016
- Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Medi 2016
- Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Medi 2016
- Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Cam 1 y Broses o Graffu ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), Rhagfyr 2016
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru, Chwefror 2017
- Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i Unigrwydd ac Unigedd, Mawrth 2017

4.4.4. Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016: Galwadau am Newid

Cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen a oedd yn amlinellu nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Dosbarthwyd y ddogfen i'r holl brif bleidiau yng Nghymru, gyda'r disgwyliad y byddai fy ngalwadau'n cael eu cynnwys yn eu maniffestos cyn yr etholiad.

Cafodd mwyafrif helaeth fy ngalwadau eu mabwysiadu ym maniffesto o leiaf un blaid wleidyddol, a chafwyd cefnogaeth drawsbleidiol sylweddol i lawer ohonynt. Ymhlith y rhain yr oedd cadw'r tocyn teithio rhatach ar fws, cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfeillio, creu cymunedau sy'n ystyriol o ddementia ledled Cymru, ac adduned cyn yr etholiad i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

Roeddwn yn arbennig o falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'm galwad i gyflwyno rhaglen brentisiaeth i bobl o bob oed ac wedi ymrwymo i gyflwyno strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd, mater cynyddol a sylweddol o ran iechyd y cyhoedd.

4.4.5. Llefarydd Pobl Hŷn

Er mwyn sicrhau bod y materion sydd bwysicaf i bobl hŷn yn cael eu hystyried, eu dadlau, a'u datrys dros gyfnod y pumed Cynulliad, galwodd y Comisiynydd ar arweinwyr y gwrthbleidiau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i benodi llefarydd a allai gynrychioli barn pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y siambr.

Roedd y Comisiynydd yn falch o gyhoeddi, a hynny ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn (1 Hydref), bod arweinydd pob plaid wedi ymateb i'w galwad ac y

byddai Sian Gwenllian (Plaid Cymru), Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymru) a David Rowlands (UKIP) yn gweithredu fel llefarydd eu plaid.

4.4.6. Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae sicrhau bod systemau rheoleiddio ac arolygu ein system gofal cymdeithasol yn gadarn ac effeithiol yn hollbwysig i amddiffyn a diogelu pobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd gorau posibl.

Mae'r Comisiynydd wedi monitro'n agos y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau a fydd yn pennu'r manylion sy'n sail i lawer o'r hyn y mae'r Ddeddf yn ceisio ei gyflawni.

Yn ystod 2016-17, mae gwaith y Comisiynydd yn y maes hwn wedi canolbwyntio ar y canlynol:

Sicrhau bod ansawdd bywyd wrth wraidd y safonau gofal newydd – Fel yr amlygwyd gan Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal, mae ansawdd bywyd gormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn annerbyniol. Bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cyflwyno safonau newydd ar gyfer cartrefi gofal ym mis Ebrill 2018, a hynny yn lle'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol. Rhaid i ansawdd bywyd, yn ogystal ag urddas a pharch, fod wrth wraidd y safonau newydd er mwyn sicrhau'r newid y mae ar bobl hŷn ei angen, a'r newid y maent am ei weld.

Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl hŷn – Mae goruchwyliaeth gadarn a strategol ar lefel genedlaethol a lleol yn hanfodol i sicrhau darpariaeth cartrefi gofal ddigonol a phriodol i bobl hŷn yng Nghymru. Nod y Ddeddf yw creu system effeithiol i oruchwyllo'r farchnad gofal cymdeithasol yng Nghymru, a hynny drwy ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ac Awdurdodau Lleol lunio adroddiadau ar asesiadau o'r farchnad. Felly, mae'n hanfodol bod asesiadau poblogaeth yn gadarn wrth asesu anghenion gofal a chymorth presennol ardal, yn ogystal â'i hanghenion ar gyfer y dyfodol, er mwyn llywio'n gywir y gwaith o oruchwyllo'r farchnad ac unrhyw gamau dilynol sy'n ofynnol.

Darparu gwell gwybodaeth i'r cyhoedd – Mae'n hanfodol bod pobl hŷn, eu teuluoedd, a'r rheiny sy'n eu cefnogi, yn gallu barnu ansawdd bywyd, gofal a diogelwch y gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr lunio datganiad blynyddol, ac mae'n rhaid i'r datganiad hwn fod yn hygyrch o ran ei gynnwys a'i argaeledd, er mwyn helpu pobl hŷn i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal.

4.4.7. Deddfwriaeth Hawliau

Ar Ddiwrnod Hawliau Dynol y Byd ym mis Rhagfyr 2015, galwodd y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn er mwyn iddynt allu byw heb gamdriniaeth,

esgeulustod, rhagfarn a gwahaniaethu; chwarae rhan lawn yn eu cymunedau; a ffynnu wrth heneiddio.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Comisiynydd yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr o'r sector cyfreithiol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â phobl hŷn, i ystyried yr hyn y gellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a'r modd y gallai weithio yn ymarferol, ac mae'r cynigion hyn wedi cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

Ers hynny, mae'r Comisiynydd wedi cyfarfod â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd, ac maent wedi ymateb yn gadarnhaol i'r alwad am ddeddfwriaeth ac wedi gwneud ymrwymadau clir i weithio gyda'u swyddogion i ystyried ffyrdd posibl o fynd ar drywydd hyn.

Mae yna gefnogaeth drawsbleidiol i gynigion y Comisiynydd, sy'n dangos awydd gwirioneddol gan holl bleidiau'r Cynulliad i sicrhau bod Cymru yn parhau i arwain y ffordd o ran gwella bywydau pobl hŷn, gan adeiladu ar ei hanes balch o lywio'r agenda cyfiawnder cymdeithasol a sicrhau bod hawliau ei holl ddinasyddion yn cael eu hamddiffyn.

4.4.8. Gwaith ychwanegol i ddylanwadu ar Bolisi, Deddfwriaeth ac Arfer

Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn deall anghenion pobl hŷn ac yn eu hadlewyrchu yn eu gwaith, mae'r Comisiynydd hefyd wedi parhau i ddylanwadu ar bolisiau ac arferion drwy fod yn aelod o amrywiaeth eang o grwpiau arbenigol a byrddau/paneli cynghori, a gweithio mewn partneriaeth â nhw, gan gynnwys:

- Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Cynghorol Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru
- Panel Cludiant Hygyrch Llywodraeth Cymru
- Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Bartneriaeth 'Ffrind i Mi' Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol Cyngor ar Bopeth Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Strategol DWP
- Fforwm Rhanddeiliaid Cymru ar Daliad Annibyniaeth Personol DWP
- Fforwm Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau
- Ffrwd Waith y Gweithlu (Grŵp Llywio Cartrefi Gofal)
- Grŵp Rhanddeiliaid AGGCC o ran y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
- Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC
- Grwpiau Technegol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (grwpiau cyfnod penodol)

4.5. Estyn allan i bobl hŷn ledled Cymru, a gwranddo arnynt

Mae ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru yn parhau i fod yn rhan allweddol o waith y Comisiynydd, er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am ei gwaith a'r ffyrdd y gall eu helpu. Mae'r ymgysylltu hwn hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn llywio ac yn llunio gwaith y Comisiynydd ac yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wna.

4.5.1. Sioe Deithio Ymgysylltu

Cyfarfu'r Comisiynydd a'i thîm â 168 o grwpiau ledled Cymru yn ystod 2016-17, gan ymgysylltu â thros 4,300 o bobl hŷn mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, yn cynnwys cynadleddau, cyfarfodydd fforwm, grwpiau cymorth a grwpiau cymdeithasol. Ymwelodd y Sioe Deithiol Ymgysylltu â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gyda'r Comisiynydd a'i thîm yn teithio dros 18,000 o filltiroedd i estyn allan i bobl hŷn.

Gan adeiladu ar y dull llwyddiannus a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol i estyn allan i bobl hŷn o bob math, parhaodd y Sioe Deithiol Ymgysylltu i ymweld â'r lleoedd hynny lle mae pobl hŷn yn byw eu bywydau, gan gynnwys clybiau cymdeithasol, canolfannau dydd, grwpiau gofalwyr, caffis dementia, cartrefi gofal a chynlluniau tai ychwanegol. Aeth tîm y Comisiynydd hefyd i ddiwrnodau gwybodaeth a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru, gan gynnal stondinau gwybodaeth i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau defnyddiol yn uniongyrchol i bobl hŷn a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi.

Er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n llunio polisi ac yn gwneud penderfyniadau yn clywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am eu profiadau a'r heriau y gellir eu hwynebu wrth heneiddio, euthum ati i drefnu nifer o ymweliadau ar y cyd ag Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, Arweinwyr Cynghorau a Chynghorwyr ledled Cymru yn ystod 2016-17. Roedd yr ymweliadau hyn yn gyfle i bobl hŷn gael eu clywed, trafod y materion sy'n bwysig iddynt, ac awgrymu ffyrdd y gellid gwella'r gwasanaethau y maent yn aml yn dibynnu arnynt.

4.5.2. Ymgysylltu'n Ehangach

Yn ogystal â'r Sioe Deithiol Ymgysylltu, mae'r Comisiynydd wedi parhau i weithio gyda sefydliadau ffurfiol sy'n cynrychioli pobl hŷn, er enghraifft y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol, Cymru Egnïol (Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru yn flaenorol), Cynghrair Pobl Hŷn Cymru a Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio, yn ogystal â fforymau pobl hŷn ledled Cymru.

Drwy gydol 2016-17, mae gwaith hefyd wedi parhau gydag amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaethau Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Safonau Masnach, yn ogystal ag amrywiaeth eang o sefydliadau trydydd sector, er enghraifft Cynghrair Henoed Cymru, Age Cymru, y Gymdeithas Alzheimer's Society, Diverse Cymru, RNIB Cymru a Sefydliad Joseph Rowntree, gan roi areithiau mewn cynadleddau a digwyddiadau, a chyfarfod ag unigolion allweddol yn y sefydliadau hyn.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am brofiadau pobl hŷn, yr heriau y maent yn eu hwynebu, a'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i hyrwyddo arfer da ac i nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, er mwyn cyflawni nodau ac amcanion a rennir i wella bywydau pobl hŷn a sbarduno newid ar eu rhan.

4.5.3. Cyfryngau

Drwy weithio gyda'r cyfryngau gydol y flwyddyn mae'r Comisiynydd wedi llwyddo i estyn allan i niferoedd mawr o bobl hŷn fel eu bod yn gwybod am y gwaith sy'n cael ei wneud i sbarduno newid ar eu rhan a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, yn ogystal â sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cael eu hamlygu i'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiynydd wedi cynnal presenoldeb cryf yn y cyfryngau, a hynny ar y teledu a'r radio, gan ymddangos droeon ar BBC Wales Today, Newyddion ITV Cymru Wales, Newyddion S4C, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi denu sylw helaeth mewn papurau newydd dyddiol, er enghraifft y Western Mail, y Daily Post, y South Wales Argus, y South Wales Evening Post a'r South Wales Echo, yn ogystal â phapurau newydd lleol wythnosol ledled Cymru. At hynny, mae sylwadau a wnaed ar nifer o faterion wedi cael eu cynnwys mewn storïau a gyhoeddwyd ym mhapurau newydd cenedlaethol y DU, gan gynnwys yr Independent a'r Guardian.

Mae'r Comisiynydd hefyd wedi parhau i ysgrifennu colofnau ac erthyglau ar gyfer amrywiaeth o gyhoeddiadau eraill, gan gynnwys cylchgronau, cyfnodolion, blogiau a chyhoeddiadau Cymraeg, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i estyn allan i bobl hŷn a rhanddeiliaid ledled Cymru.

4.5.4. Cydnabod Rhagoriaeth

Mae hyrwyddo arfer da sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl hŷn yn rhan allweddol o waith y Comisiynydd, ac mae wedi cwrdd â nifer o staff rhagorol mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy eu gwaith.

Er mwyn sicrhau bod arfer da ym maes gofal a chymorth i bobl hŷn yn cael ei gydnabod yn ffurfiol, noddais Wobrau Nyrs y Flwyddyn Cymru RCN a Gwobrau Gofal Cymru er mwyn cydnabod a dathlu cyfraniad gwerthfawr unigolion rhagorol, yn ogystal â'u gwaith caled, eu hymrwymiad a'u harloesedd.

5. Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd

Cyhoeddodd y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Mawrth 2016 yn dilyn ymgynghoriad â phobl hŷn a rhanddeiliaid, gan ddisodli'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn nodi amcanion cydraddoldeb penodol ac yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd y strategaeth newydd i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u sefydlu ym meddylfryd ac arferion gweithio'r Comisiynydd a'i staff.

Nododd y Comisiynydd yr amcanion canlynol ar gyfer 2016-20:

1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng aelodau o'r staff.

- Byddaf yn ceisio cynyddu amrywiaeth fy ngweithlu • Bydd pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gyflawni ei botensial
- Byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei wobrwyo a'i dalu ar y sail eu bod yn gyfartal beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig
- Byddaf yn sicrhau bod diwylliant yn fy sefydliad lle mae pob aelod o'r staff yn teimlo'n gyfforddus i fod yn agored ynglŷn â'i nodweddion gwarchodedig ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gennyf fi fel cyflogwr ac ar draws y sefydliad

2. Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd yr angen i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol i ystyriaeth

- Byddaf yn adolygu'n flynyddol fy holl bolisiau ac arferion caffael a'm holl ddogfennau tendro i sicrhau eu bod yn bodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Byddaf yn sicrhau bod contractwyr yn gwbl ymwybodol o'm dyletswyddau cydraddoldeb

3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn o bob math, a bod hynny i'w weld yn amlwg.

- Byddaf yn ymgysylltu llawer mwy â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchodedig

- Sicrhau bod fy ngwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl hŷn ar draws y sbectrwm nodweddion gwarchoddedig yn ei ddweud wrthyf ynglŷn â beth sy'n bwysig iddyn nhw, a bod fy ngwaith yn tynnu sylw penodol at effeithiau ar y rhai sydd â gwahanol gyfuniadau o nodweddion gwarchoddedig
- Byddaf yn cryfhau'r asesiad o effaith sy'n sail i'm gwaith er mwyn sicrhau bod fy ngwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith nodweddion gwarchoddedig ar y canlyniad a geisir i bobl hŷn

4. Byddaf yn sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda sy'n canolbwyntio ar hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.

- Byddaf yn sicrhau bod staff yn cynnwys dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn eu gwaith
- Byddaf yn hyrwyddo Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ac ymwybyddiaeth o Oedraniaeth
- Byddaf yn gweithio gyda'r llywodraeth i hyrwyddo'r defnydd o egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau wrth greu deddfwriaeth

5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.

- Byddaf yn arfogi pobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i'w grymuso i herio gwahaniaethu

6. Hybu darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, gwella dealltwriaeth o bobl hŷn a'u hanghenion a herio stereoteipiau, yn fy sefydliad i ac mewn sefydliadau eraill.

- Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth fy staff o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach
- Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth y prif wasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach
- Byddaf yn herio stereoteipiau a syniadau negyddol am bobl hŷn yn barhaus ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer newid
- Byddaf yn cryfhau ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydardoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau lleisiau pobl hŷn a chynyddu effaith ein gwaith

7. Annog a chefnogi gyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.

- Byddaf yn darparu canllawiau i gyrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau allweddol i'w gwasanaethau er mwyn eu helpu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn cysylltiad ag ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd
- Byddaf yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu a newidiadau sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol neu anghymesur sylweddol ar bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n barhaus

6. Yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2016-17

Amlinellir isod yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn yr amcanion:

Amcan	Swyddog Arweiniol	Amserlen	Dulliau mesur	Gweithgarwch / Camau a gymerwyd
1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng aelodau o'r staff.				
Byddaf yn ceisio cynyddu amrywiaeth fy ngweithlu	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Erbyn Rhagfyr 2016 ac yna'n flynyddol	Adolygu arferion recriwtio er mwyn deall rhwystrau posibl, a sicrhau bod arferion recriwtio'n gynhwysol a'u bod yn ceisio denu ymgeiswyr ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchoddedig.	Adolygwyd arferion recriwtio'r Comisiynydd, ac mae rolau'n cael eu hysbysebu drwy rwydwaith eang.
		Fel uchod	Adolygu'r mathau o gontractau a phatrymau gweithio er mwyn deall ac ymdrin â rhwystrau posibl gyda'r bwriad o ddenu a chadw ymgeiswyr ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchoddedig.	Adolygwyd polisi gweithio hyblyg y Comisiynydd eleni, ac mae rolau'n cael eu hysbysebu drwy rwydwaith eang.
		Fel uchod	Monitro, mesur ac adolygu ceisiadau am waith a llwyddiant ym mhob cam gyda'r bwriad o sicrhau cyfle teg i bob ymgeisydd.	Cynhaliwyd adolygiad ar ôl pob proses recriwtio.

			Blynyddol	Casglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb sy'n ymwneud â chyfogaeth.	Cyhoeddir data yn flynyddol yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Gweler tudalen 33).
Bydd pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gyflawni ei botensial	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Bob chwe mis		Adolygiadau rheoli perfformiad parhaus bob chwe mis er mwyn nodi a sefydlu cynlluniau priodol i gyflawni amcanion dysgu a datblygu.	Cynhaliwyd adolygiadau chwe-misol o berfformiad yr holl staff, a hynny ym mis Hydref a mis Mawrth.
Byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei wobrwyo a'i dalu ar y sail eu bod yn gyfartal beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Erbyn Rhagfyr 2016 a phan fydd swyddi newydd yn cael eu creu		Adolygu pob swydd er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dal swydd yn cael ei werthuso'n wrthrychol ac yn deg ac yn derbyn tâl teg pa un a oes ganddo nodwedd warchoddedig ai peidio.	Cynhaliwyd gwerthusiad swyddi annibynnol er mwyn sicrhau bod pob swydd yn cael ei werthuso a'i thalu'n deg.
Byddaf yn sicrhau bod diwylliant yn fy sefydliad lle mae pob aelod o'r staff yn teimlo'n gyfforddus i fod yn agored ynglŷn â'i nodweddion gwarchoddedig ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gennyf fi fel	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Erbyn Medi 2016		Cynnal arolwg staff cyfrinachol bob blwyddyn er mwyn gofyn am farn pobl ac ystyried adlewyrchu'r farn hon ym mholisïau, gweithdrefnau ac amgylchedd gwaith y sefydliad.	Cynhaliwyd yr holiadur staff, ac mae'r canlyniadau wedi cael eu defnyddio i ddatblygu polisiau ac arferion y Comisiynydd.

cyflogwr ac ar draws y sefydliad		Dau sesiwn ffurfiol y flwyddyn	Codi ymwybyddiaeth yn barhaus drwy sesiynau a hyfforddiant anffurfiol a ffurfiol, dosbarthu gwybodaeth a defnyddio delweddau cadarnhaol i hybu dealltwriaeth o nodweddion gwarchoddedig.	Cynhaliwyd dau gyfarfod tîm eleni i godi ymwybyddiaeth o nodweddion gwarchoddedig.
		Blynyddol ac yn unol â phob cynllun	Sicrhau bod arferion da'n cael eu hadolygu a'u cymhwyso'n barhaus er mwyn hybu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hybu dysgu, datblygu a lles cyffredinol.	Adolygwyd arferion.
2. Sicrhau bod fy mhollisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd yr angen i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol i ystyriaeth.				
Byddaf yn adolygu'n flynyddol fy holl bollisiau ac arferion caffael a'm holl ddogfennau tendro i sicrhau eu bod yn bodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Fel y nodwyd neu'n flynyddol	Sicrhau adolygiad priodol a chyfnodol o bob polisi perthnasol er mwyn adlewyrchu dyletswyddau statudol, arferion da a dysgu.	Adolygwyd arferion.
Byddaf yn sicrhau bod contractwyr yn gwbl ymwybodol o'm	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Parhaus	Sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau er mwyn ceisio cynrychioli'r amrywiaeth	Mae pob dogfen tendr a chontract yn cynnwys gofynion y Comisiynydd.

dylletswyddau cydraddoldeb.			<p>ehangach o bobl hŷn a sicrhau fy mod wedi chwilio am grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, neu sy'n llai gweledol, ac wedi ymweld â hwy.</p> <p>Sicrhau fy mod yn dal i godi ymwybyddiaeth o'm gwaith mewn grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn annog ymgysylltu ehangach a mwy cynrychioladol.</p>	
3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn o bob math, a bod hynny i'w weld yn amlwg.				
Byddaf yn ymgysylltu llawer mwy â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Parhaus	<p>Sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau er mwyn ceisio cynrychioli'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a sicrhau fy mod wedi chwilio am grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, neu sy'n llai gweledol, ac wedi ymweld â hwy.</p> <p>Sicrhau fy mod yn dal i godi ymwybyddiaeth o'm gwaith mewn grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn annog ymgysylltu</p>	<p>Mae'r sioe deithiol ymgysylltu wedi parhau i chwilio am bobl â nodweddion gwarchoddedig, ac mae adroddiad chwarterol yn cael ei lunio i ddangos y modd y mae tîm y Comisiynydd wedi ymgysylltu â gwahanol nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Roedd 68% o waith ymgysylltu'r Comisiynydd gyda grwpiau o bobl a chanddynt un neu fwy o nodweddion amrywiol neu warchoddedig.</p>

Sicrhau bod fy ngwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl hŷn ar draws y sbectrwm nodweddion ddweud wrthyf ynglŷn â beth sy'n bwysig iddyn nhw, a bod fy ngwaith yn tynnu sylw penodol at effeithiau ar y rhai sydd â gwahanol gyfuniadau o nodweddion gwarchoddedig	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu ehangach â phobl ar draws y sbectrwm nodweddion gwarchoddedig er mwyn rhoi ystyriaeth benodol i unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant yn fy ngwaith.	Wrth fynd ar drywydd fy rhaglen waith ar gyfer 2016-17, rwyf wedi canolbwyntio'n benodol ar unigolion y mae eu lleisiau a'u hawliau wedi lleihau oherwydd effaith gyfunol annhegwch neu natur 'ymblethedig' nodweddion gwarchoddedig gwahanol sydd, yn rhy aml, yn arwain at wahaniaethu lluosog.
Byddaf yn cryfhau'r asesiad o effaith sy'n sail i'm gwaith er mwyn sicrhau bod fy ngwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith nodweddion gwarchoddedig ar y	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Sicrhau bod cyhoeddiadau'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r materion a'r effeithiau y tynnir sylw atynt gan amrywiaeth o bobl hŷn, a bod modd cael gafael arnynt yn rhwydd ar ffurf electronig a chopi caled.	Eleni, ailfrandiodd y Comisiynydd y delweddau – ddefnyddir yn ei dogfennau – mae hyn yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig
	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Erbyn Rhagfyr 2016 a pharhaus	Defnyddio offeryn newydd i asesu effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol a'i wneud yn rhan annatod o waith yr holl staff perthnasol er mwyn ceisio gwella ansawdd y gwaith	Eleni, mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ar hawliau dynol a deddfwriaeth cydraddoldeb, yn ogystal â sesiynau ymwybyddiaeth o dementia, nam ar y synhwyrau, a thrawsrywioldeb.

canlyniad a geisir i bobl hŷn				rwyn ei wneud ar ran pobl hŷn.	Cyn ymgymryd ag unrhyw brosiect, cynhelir asesiad o gydraddoldeb a hawliau dynol i asesu'r effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.
4. Byddaf yn sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda sy'n canolbwyntio ar hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.					
Byddaf yn sicrhau bod staff yn cynnwys dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn eu gwaith.	Y ddau Gyfarwyddwr	Erbyn Medi 2016 a pharhaus	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant craidd ar Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a sicrhau bod staff yn cael cymorth i integreiddio'r rhain yn eu gwaith.	Darparwyd hyfforddiant i'r holl staff.	
Byddaf yn hyrwyddo Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ac ymwybyddiaeth o Oedraniaeth	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Erbyn Mawrth 2017 a pharhaus	Darparu hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Hwyluso gweithdai hyfforddiant gydag Awdurdodau Lleol ar Asesiadau Effaith a Chanllawiau Craffu a fydd yn cynnwys Egwyddorion	Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ledled Cymru gyda gweithwyr proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ac Oedraniaeth. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddais Rhoi Hawliau ar Waith ar gyfer Pobl Hŷn – Canllaw i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am fframwaith	

			y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.	<p>hawliau dynol y DU, Deddf Hawliau Dynol 1998, Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, Ymagwedd at Hawliau Pobl Hŷn, a'r cysylltiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p> <p>Nod y canllawiau a ddrafftiiwyd gan yr Athro Simon Hoffman yw rhoi mwy o rym i hawliau pobl hŷn yng Nghymru, ac maent wedi cael eu rhannu ag Awdurdodau Lleol ledled Cymru drwy gyfres o weithdai wedi'u hwyluso.</p>
<p>Byddaf yn gweithio gyda'r llywodraeth i hyrwyddo'r defnydd o egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau wrth greu deddfwriaeth</p>	<p>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso</p>	<p>Rhagfyr 2016</p>	<p>Llunio adroddiad a fydd yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth newydd Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn fel eu bod yn cael byw heb gael eu camdrin na'u hesgeuluso, na dioddef oedraniaeth na gwahaniaethu, a'u bod yn cael cymryd rhan lawn yn eu</p>	<p>Mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn yng Nghymru.</p>

				<p>cymunedau a chael ffynnu mewn henaint.</p> <p>Gweithio gydag arbenigwyr profiadol, pobl hŷn yn ogystal ag arbenigwyr academaidd ac ym maes deddfwriaethol i benderfynu ynghylch beth y gellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut y byddai'n gweithio yn ymarferol.</p>	<p>Sefydlodd y Comisiynydd banel cynghori arbenigol, o blith arbenigwyr cyfreithiol a phobl hŷn, i'w chynghori ar y ddeddfwriaeth.</p>
5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu					
Byddaf yn arfogi pobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i'w grymuso i herio gwahaniaethu	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	<p>Byddwn yn gwneud pobl hŷn yn fwy ymwybodol o wahaniaethu drwy ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ledled Cymru.</p> <p>Bydd fy ngwefan yn dal i ddarparu templedi, gwybodaeth ddefnyddiol a phhecynnau cymorth eraill y gall pobl hŷn eu defnyddio i herio gwahaniaethu.</p>	<p>Defnyddiwyd pecyn cymorth Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth y Comisiynydd i godi ymwybyddiaeth o'r modd y gall pobl hŷn herio gwahaniaethu.</p> <p>Mae gwefan y Comisiynydd yn cynnwys ardal benodol ar oedraniaeth a gwahaniaethu, gydag adnoddau i rymuso pobl hŷn i herio gwahaniaethu.</p>	

6. Hybu darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, gwella dealltwriaeth o bobl hŷn a'u hanghenion a herio stereoteipiau, yn fy sefydliad i ac mewn sefydliadau eraill.					
Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth fy staff o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach	Y ddau Gyfarwyddwr	Erbyn Rhagfyr 2016 a pharhaus	Dal i ddarparu sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth gan gynnwys yn fwyaf penodol Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fydd yn cael eu hymgorffori yn nulliau gweithio fy staff.	Mae'r holl staff yn cael eu haddysgu am amrywiaeth a hawliau pobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig a'r modd y gellir eu cymhwyso.	
	Y ddau Gyfarwyddwr	Bob chwe mis	Sicrhau bod adolygiadau rheoli perfformiad a gynhelir bob chwe mis yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd wrth ymgorffori materion cydraddoldeb yng ngwaith y staff a cheisio gwella o hyd.	Mae'r holl staff wedi trafod materion cydraddoldeb yn eu cyfarfodydd rheoli perfformiad chwe-misol.	
Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth y prif wasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus	Rhannu gwybodaeth a disgwiliadau sy'n ymwneud â phobl hŷn â chyrrff cyhoeddus ac asiantaethau allanol yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, drwy ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, drwy fy nghyhoeddiadau ac ar fy ngwefan.	Mae'r Comisiynydd yn rhannu themâu o'i hastudiaethau achos, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â hawliau dynol a chydraddoldeb, â chyrrff cyhoeddus er mwyn gwella eu dealltwriaeth o amrywiaeth pobl hŷn.	

<p>Byddaf yn herio stereoteipiau a syniadau negyddol am bobl hŷn yn barhaus ac yn gosod disgwiliadau clir ar gyfer newid</p>	<p>Y ddau Gyfarwyddwr</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Ymgyrch 'Na i Oedraniaeth' ac Arwyr Bob Dydd. Yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, codi ymwybyddiaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n ceisio siarad llai am bobl hŷn fel grŵp unffurf a mwy am anghenion a dyheadau'r amrywiaeth o unigolion hŷn a sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu.</p>	<p>Mae gwybodaeth ar gael ar wefan a thudalenau Twitter y Comisiynydd sy'n herio ystrydebau ac yn hyrwyddo ei hymgyrch Na i Oedraniaeth. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn aml yn codi'r angen i gydnabod nad yw pobl hŷn yn grŵp homogenaidd, a hynny drwy waith achos ac wrth gyfarfod â chyrrff cyhoeddus eraill. Mae'r Comisiynydd hefyd yn eu dwyn i gyfrif pan fo angen.</p>
<p>Byddaf yn cryfhau ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau lleisiau pobl hŷn a chynyddu effaith ein gwaith</p>	<p>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Ymgysylltu parhaus ac ehangach â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. Sicrhau bod ymatebion i unrhyw ymgynghoriadau ac ymchwiliadau perthnasol yn ceisio adeiladu ar eu sefyllfa bresennol. Bydd adolygiadau sylweddol o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus</p>	<p>Sefydlwyd Grŵp Arbenigol ar Hawliau Dynol Pobl Hŷn i archwilio a hyrwyddo deddfwriaeth yng Nghymru, er mwyn rhoi mwy o rym i hawliau dynol pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau pobl hŷn a sefydliadau cydraddoldeb a hawliau dynol, a'i nod yw cryfhau hawliau pobl hŷn yng Nghymru.</p>

				yn ceisio cynnwys sefydliadau sy'n ymwneud â chydrraddoldeb a hawliau dynol fel cynghorwyr a chyfranwyr arbenigol.	Mae ymatebion i ymgynghoriadau perthnasol, er enghraifft y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, wedi cynnwys safbwyntiau sefydliadau cydraddoldeb a hawliau dynol lle bo'r rhain er budd pobl hŷn.
7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.					
Byddaf yn darparu canllawiau i gyrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau allweddol i'w gwasanaethau er mwyn eu helpu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn cysylltiad ag ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Adolygu, cynnig adborth a darparu ymateb i ymgynghoriadau cyrff cyhoeddus eraill.	Rwyf wedi parhau i hyrwyddo'r Canllawiau a gyhoeddais yn 2016 ar Asesu Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a Chyrff cyhoeddus eraill. Nod y Canllawiau yw sicrhau yr ymglymerir â gwaith craffu cadarn pan fo newidiadau i wasanaethau cymunedol yn cael eu cynnig, gwaith sy'n hanfodol i sicrhau nad oes effaith anghymesur ar bobl hŷn a bod dulliau gweithredu amgen yn cael eu hystyried.	

<p>Byddaf yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu a newidiadau sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol neu anghymesur sylweddol ar bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n barhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Adolygu gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus a darparu argymhellion cadarn er mwyn annog a hybu newid cadarnhaol.</p> <p>Os bydd cyrff cyhoeddus yn gwrthod gweithredu fy argymhellion, heb reswm da, byddaf yn eu galw i gyfrif, gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol os oes angen.</p>	<p>Drwy fy ngwaith achos parhaus, rwyf wedi darparu cymorth ar lefel gymunedol ac unigol er mwyn sicrhau bod modd adolygu unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau o ran eu potensial i gael effaith andwyol neu anghymesur sylweddol ar bobl hŷn.</p> <p>Ymhlith y meysydd allweddol sy'n destun adolygiad parhaus y mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Toiledau Cyhoeddus • Bathodynau Glas • Cau gwasanaethau cymunedol megis canolfannau dydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden
--	---	----------------	---	--

Atodiad A: Proffiliau'r gweithlu ar 31/03/17

Gwybodaeth cyfrif pennau

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodwedd warchoddedig.

- Oed
- Trawsrywedd
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred

Bydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag arolwg staff blynyddol i gasglu data cydraddoldeb rheolaidd. Mae'r arolwg hwn yn gyfrinachol ac mae'r ymatebion yn ddiennw. Am y flwyddyn 2016-17 cafodd y Comisiynydd 16 ymateb allan o 21 posib. Ond oherwydd maint y sefydliad, lle bo'r ffigurau'n cyfrif am lai na 10%, tynnwyd y manylion allan er mwyn sicrhau na ellir adnabod unigolion.

Nifer y bobl a gyflogir fesul Nodwedd Warchoddedig:

Oed	
16-24	-
25-34	9
35-44	3
45-54	-
55-64	-
65 a throsodd	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	5
Benyw	11
Dewis Peidio Dweud	-

Ai'r rhyw a briodolwyd ichi pan gawsoch eich geni yw'r rhyw yr ydych yn ei arddel nawr?

Ie	16
Na	-
Dewis Peidio Dweud	-

Cyfeiriadedd rhywiol

Deurywiol	-
Dyn Hoyw	-
Menyw Hoyw / Lesbiad	-
Heterorywiol / Strêt	14
Arall	-
Dewis Peidio Dweud	-

Statws Perthynas

Priod	8
Wedi ysgaru	-
Mewn Partneriaeth Sifil	-
Sengl	3
Yn cyd-fyw	4
Wedi gwahanu	-
Gweddw	-
Dewis peidio dweud	-

Crefydd neu Gred

Dim crefydd na chred	10
Cristion (pob enwad)	4
Bwdydd	-
Hindw	-
Iddew	-
Mwslim	-
Sikh	-
Unrhyw grefydd neu gred arall	-
Dewis peidio dweud	3

Hunaniaeth Genedlaethol

Cymro/Cymraes	13
Sais/Saesnes	-
Albanwr/Albanes	-
Gwyddel/Gwyddeles o Gogledd Iwerddon	-
Prydeiniwr	-
Dewis peidio dweud	-

Tarddiad Ethnig	
Gwyn	16
Cymysg/Sawl grŵp ethnig	-
Asiaidd	-
Du/Affricanaidd/Caribiaidd	-
Dewis peidio dweud	-

Dibynyddion	
Dim	12
Plant dan 18	3
Plant dan 25 mewn addysg amser llawn	-
Unigolyn 60 oed neu hŷn	-
Dewis peidio dweud	-

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	-	15	-
Oes gennych anabledd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb?	-	16	-
Oes gan o leiaf un person sy'n ddibynnol arnoch anabledd?	-	15	-

Cymerwyd y data isod o gofnodion Adnoddau Dynol yn hytrach na thrwy'r arolwg staff blynyddol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Nifer gweithwyr beichiog yn ystod 2016-17	3
Nifer gweithwyr yn cymryd Absenoldeb Mamolaeth yn ystod 2016-17	3

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u didoli yn ôl y categorïau canlynol:

Swydd	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Gweinyddwr	1	0	1
Swyddog Cymorth/Cynorthwyol a Swyddog	1	3	4
Swyddog	1	5	6
Arweinydd	3	5	8
Cyfarwyddwr	0	2	2
Comisiynydd	0	1	1

Cyflog a Gradd	Dyn	Menyw	Cyfanswm
16,300 – 20,000 / A	1	0	1
20,800 – 25,250 / B	1	3	4
26,500 – 32,200 / C	1	5	6
33,800 – 41,050 / D	3	5	8
41,950 – 51,850 / E	0	0	0
54,900 – 65,400 / F	0	2	2
60,000 – 117,800* / Comisiynydd	0	1	1

*Pennwyd y Lefel Cyflog gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch

Math o Gontract	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Parhaol	5	12	17
Tymor Penodol	-	2	2
Dros Dro	-	-	-

Patrwm Gweithio	Dyn	Menyw	Cyfanswm
Amser Llawn	6	14	20
Rhan Amser	0	2	2
Oriau Cywasgedig	0	2	2

Recriwtio

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r corff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwmo i gynyddu amrywiaeth ei staff drwy adolygu prosesau recriwtio'r Comisiynydd, gan gynnwys y ffurflen gais, sut, a ble i hysbysebu.

Mae ffurflenni cais eisoes ar gael mewn fformatau amgen ac mae hysbysebion recriwtio yn cael eu cyhoeddi'n eang drwy amrywiaeth o gyfryngau. Mae gan y Comisiynydd Bolisi Urddas yn y Gwaith ac mae'n mabwysiadu arfer da o ran ei phroses recriwtio; dim ond yr adran Adnoddau Dynol sy'n gweld gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig a nodir mewn ffurflenni cais, ac nid yw'n cael ei rhannu â'r panel dethol. At hynny, mae addasiadau rhesymol ar gael i'r holl ymgeiswyr sy'n gwneud cais amdanynt, ac mae addasiadau rhesymol wedi cael eu darparu ar gyfer ymgeiswyr yn ystod 2016-17.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried gwneud newidiadau pellach i'r strategaeth recriwtio a'r prosesau ymgeisio er mwyn helpu i sicrhau gweithlu amrywiol; gallai hyn gynnwys datblygu dull recriwtio mwy targededig i ddenu ymgeiswyr â nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd i ehangu'r gweithlu ymhellach yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau cyllidebol ar swyddi ychwanegol, maint y sefydliad, a'r trosiant staff isel.

Yn ystod 2016-17, recriwtiodd y Comisiynydd ar gyfer pum swydd drwy brosesau recriwtio allanol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pob rôl:

Role	Number of candidates
Pennaeth Cyllid (cyfnod mamolaeth)	6
Cynorthwydd Gweinyddol	13
Uwch-weithiwr Achos Dwyieithog Cyllid (cyfnod mamolaeth)	3
Arweinydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cyfnod mamolaeth)	14
Uwch-weithiwr Achos Dwyieithog (cyfnod mamolaeth)	5

Mae'r holl ymgeiswyr yn cael cyfle i lenwi ffurflen Monitro Amrywiaeth wrth ymgeisio. Fodd bynnag, nid yw'r holl ymgeiswyr yn dewis llenwi a chyflwyno'r ffurflen hon. Yn ystod 2016-17, cyflwynwyd 18 o ffurflenni Monitro Amrywiaeth wedi'u llenwi mewn perthynas â phrosesau recriwtio allanol.

Nifer y ceisiadau am swyddi yn 2016-17 a gafwyd gan y grwpiau â nodweddion gwarchodedig canlynol:

Oed	
16-24	1
25-34	5
35-44	3
45-54	3
55-64	3
65 a throsodd	1
Dewis Peidio Dweud	2

Rhyw	
Gwryw	7
Benyw	11
Trawsrywiol G>M	-
Trawsrywiol M>G	-
Dewis Peidio Dweud	-

Cyfeiriadedd rhywiol	
Deurywiol	1
Hoyw / Lesbiad	2
Heterorywiol	13
Arall	-
Dewis Peidio Dweud	2

Crefydd neu Gred	
Dim crefydd na chred	8
Cristion (pob enwad)	7
Bwdydd	-
Hindw	-
Iddew	-
Mwslim	-
Sikh	-
Unrhyw grefydd neu gred arall	1
Dewis peidio dweud	2

Hil (yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl)	
Gwyn: Sais/Saesnes	-
Gwyn: Albanwr/Albanes	-
Gwyn: Cymro/Cymraes	14
Gwyn: Gogledd Iwerddon	-
Gwyn: Prydeiniwr/wraig	3
Gwyn: Sipsi/Teithiwr Gwyddelig	-
Gwyn: Gwyddel/Gwyddeles	-
Gwyn: Arall	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du'r Caribî	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn a Du Affrica	-
Grŵp Ethnig Cymysg/Lluosog – Gwyn ac Asiaidd	-
Cefndir ethnig cymysg/lluosog arall	-
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Pacistani	-
Asiaidd – Bangladeshi	-
Asiaidd – Tsieineaidd	-
Asiaidd – Prydeiniwr/wraig	-
Cefndir Asiaidd Arall	-
Du – Caribïaidd	-
Du – Affricanaidd	-
Du – Prydeiniwr/wraig	-
Du – Arall (rhowch fanylion)	-
Grŵp ethnig arall (rhowch fanylion) Arab	-
Dewis peidio dweud	1

Anabledd	Oes	Na / Amh	Dewis Peidio Dweud
Oes gennych anabledd, yn eich tyb chi?	3	15	-

Ni chasglwyd data ynglŷn â beichiogrwydd a mamolaeth yng nghyswllt gweithgaredd recriwtio am 2016-17.

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru fynd ati'n flynyddol i gasglu a chyhoeddi nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid swydd yn yr awdurdod, gan nodi sawl un ohonynt a fu'n llwyddiannus yn eu cais, a sawl un a fu'n aflwyddiannus.

Ni chafwyd yr un cais gan weithiwr i newid swydd.

Dysgu a Datblygu

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint fu'n llwyddiannus yn eu cais.

Mae'r Comisiynydd yn dal Gwobr Arian Buddsoddwyr mewn Pobl, ac, fel y dywedir ym Mholisi Dysgu a Datblygu'r Comisiynydd, ei nod yw bod yn sefydliad sy'n dysgu, a meithrin y sgiliau a'r wybodaeth y bydd ar staff eu hangen er mwyn llwyddo yn eu swyddi. Mae'r polisi hwn felly yn cefnogi diwylliant o ddysgu a datblygu staff rhagorol ar bob lefel.

Anogir pawb o'r staff i fanteisio ar gyfleon dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w swyddi a'u datblygiad personol. Bydd y Comisiynydd yn:

- darparu amgylchedd gweithio heriol, lle anogir staff i ddatblygu a magu sgiliau newydd a phrofiad.
- darparu amrediad o gyfleon datblygu i staff a fydd yn gyson ag anghenion strategol a gweithredol y Comisiynydd.[†]
- sicrhau y caiff pob aelod staff newydd ddealltwriaeth sylfaenol o rôl, swyddogaeth, polisiâu a gweithdrefnau'r Comisiynydd wrth gael eu sefydlu yn eu swydd.
- asesu anghenion dysgu a datblygu'r Comisiynydd ac unigolion a llunio dadansoddiad anghenion hyfforddi a dysgu'r Comisiynydd.
- cynnal cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a chytuno arnynt gyda phob aelod staff fel rhan o'r broses gwerthuso perfformiad.
- adolygu cynlluniau unigolion a'r Comisiynydd o leiaf bob blwyddyn; asesu effeithiolrwydd ymyriadau hyfforddi a bwydo hynny'n ôl i gynlluniau wedyn.

Mae'r holl weithwyr yn cael cyfle cyfartal o ran hyfforddiant, a chafwyd cais am hyfforddiant gan bob un ohonynt. Cymeradwyodd y Comisiynydd bob cais gan weithiwr am weithgarwch Dysgu a Datblygu (hyfforddiant) yn ystod 2016-17. Cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn naill ai ar sail unigol neu ar sail gorfforaethol, lle'r oedd yr holl weithwyr yn bresennol.

2. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant.

Mae'r holl weithwyr yn cael hyfforddiant ar gydraddoldeb a nodweddion gwarchoddedig yn ystod eu blwyddyn gyntaf o gyflogaeth, a hynny yn rhan o'u rhaglen sefydlu. Oherwydd natur y sefydliad, mae'r hyfforddiant hwn, wrth reswm, yn seiliedig ar oedran.

Bu'r holl weithwyr yn rhan o hyfforddiant tîm ar y canlynol:

- Deallusrwydd a Chydnerthedd Emosiynol
- Sgiliau rheoli amser
- Sut y mae bod yn hwylusydd effeithiol
- Gwerthuso a monitro canlyniadau
- Diogelu a Cham-drin Domestig
- Codi pryderon yn y gweithle
- Cod ymddygiad
- Diogelu Data
- Safonau'r Gymraeg

Cafodd y gweithwyr amrywiaeth eang o hyfforddiant. Bu'r rheolwyr llinell ar gwrs hyfforddi o'r enw 'Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol', a chafodd Gweithwyr Achos hyfforddiant ar Ddiogelu a Chwythu'r Chwiban.

Mae'r holl weithwyr yn gallu mynd i wersi Cymraeg yn ystod amser gwaith, a hynny naill ai ar lefel dechreuwr, canolraddol neu uwch.

Cwblhaodd holl weithwyr y Comisiynydd yr holl hyfforddiant yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod 2016-17.

Gweithdrefnau Cwyno

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru fynd ati'n flynyddol i gasglu a chyhoeddi nifer y gweithwyr a fu'n rhan o weithdrefnau cwyno, boed hynny fel achwynydd neu fel unigolyn y gwnaethpwyd cwyn yn ei erbyn.

Ni fu'r un o weithwyr y Comisiynydd yn rhan o weithdrefnau cwyno yn ystod 2016-17, boed hynny fel achwynydd neu fel unigolyn y gwnaethpwyd cwyn yn ei erbyn.

Gweithdrefnau Disgyblu

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru fynd ati'n flynyddol i gasglu a chyhoeddi nifer y gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu.

Ni fu'r un o weithwyr y Comisiynydd yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod 2016-17.

Y Rhai sy'n Gadael

1. Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru fynd ati'n flynyddol i gasglu a chyhoeddi nifer y gweithwyr sydd wedi gadael cyflogaeth awdurdod.

Yn ystod 2016-17, gadawodd dau o weithwyr gyflogaeth y Comisiynydd.

Gan fod yr holl ddata am gydraddoldeb gweithwyr yn ddiennw, nid oes unrhyw ddata penodol am nodweddion gwarchoddedig y gweithwyr hyn ar gael. Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd wybodaeth am oedran a rhyw y gweithwyr penodol hyn at ddibenion adnoddau dynol; mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi isod.

Oed	
16-24	-
25-34	1
35-44	1
45-54	-
55-64	-
65 a Hŷn	-
Dewis Peidio Dweud	-

Rhyw	
Gwryw	-
Benyw	2
Dewis Peidio Dweud	-

Atodiad B: Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2017-18

Amcan	Arweinydd	Amserlen	Gweithredu / Dull o Fesur
1. Sicrhau wrth gyflogi staff nad wyf yn gwahaniaethu yn erbyn neb, fy mod yn hybu cyfle cyfartal i bawb ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng aelodau o'r staff.			
Byddaf yn ceisio cynyddu amrywiaeth fy ngweithlu	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Blynyddol	Adolygu arferion recriwtio er mwyn deall rhwystrau posibl, a sicrhau bod arferion recriwtio'n gynhwysol a'u bod yn ceisio denu ymgeiswyr ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchoddedig. Adolygu'r mathau o gcontractau a phatrymau gweithio er mwyn deall ac ymdrin â rhwystrau posibl gyda'r bwriad o ddenu a chadw ymgeiswyr ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchoddedig. Monitro, mesur ac adolygu ceisiadau am waith a llwyddiant ym mhob cam gyda'r bwriad o sicrhau cyfle teg i bob ymgeisydd. Casglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb sy'n ymwneud â chyflogaeth.
Bydd pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yn un cyfle i gyflawni ei botensial.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Bob chwe mis	Adolygiadau rheoli perfformiad parhaus bob chwe mis er mwyn nodi a sefydlu cynlluniau priodol i gyflawni amcanion dysgu a datblygu.
Byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei wobrwyo a'i	Cyfarwyddwr Materion	Wrth i swyddi newydd gael	Adolygu pob swydd er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dal swydd yn cael ei werthuso'n wrthrychol ac

dalw ar y sail eu bod yn gyfartal beth bynnag eu nodweddion gwarchoddedig.	Corfforaethol	eu creu	yn deg ac yn derbyn tâl teg pa un a oes ganddo nodwedd warchoddedig ai peidio.
Byddaf yn sicrhau bod diwylliant yn fy sefydliad lle mae pob aelod o'r staff yn teimlo'n gyfforddus i fod yn agored ynglŷn â'i nodweddion gwarchoddedig ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gennyf fi fel cyflogwr ac ar draws y sefydliad.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Dau sesiwn ffurfiol y flwyddyn Blynyddol ac yn unol â phob cynllun	Codi ymwybyddiaeth yn barhaus drwy sesiynau a hyfforddiant anffurfiol a ffurfiol, dosbarthu gwybodaeth a defnyddio delweddau cadarnhaol i hybu dealltwriaeth o nodweddion gwarchoddedig. Sicrhau bod arferion da'n cael eu hadolygu a'u cymhwyso'n barhaus er mwyn hybu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hybu dysgu, datblygu a lles cyffredinol.
2. Sicrhau bod fy mholisiau a'm harferion caffael a'r dogfennau tendro cysylltiedig yn cymryd yr angen i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol i ystyriaeth.			
Byddaf yn adolygu'n flynyddol fy holl bolisiau ac arferion caffael a'm holl ddogfennau tendro i sicrhau eu bod yn bodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Fel y nodwyd neu'n flynyddol	Sicrhau adolygiad priodol a chyfnodol o bob polisi perthnasol er mwyn adlewyrchu dyletswyddau statudol, arferion da a dysgu.
Byddaf yn sicrhau bod contractwyr yn gwbl ymwybodol o'm dyletswyddau cydraddoldeb.	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol	Parhaus Parhaus	Sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau er mwyn ceisio cynrychioli'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a sicrhau fy mod wedi chwilio am grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, neu sy'n llai gweledol, ac wedi ymweld â hwy. Sicrhau fy mod yn dal i godi ymwybyddiaeth o'm gwaith mewn grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn annog ymgysylltu ehangach a mwy cynrychioladol.

3. Sicrhau bod fy ngwaith yn berthnasol i bobl hŷn o bob math, a bod hynny i'w weld yn amlwg.

<p>Byddaf yn ymgysylltu llawer mwy â phobl hŷn ar draws yr holl wahanol nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p>Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Sicrhau bod yr ymgysylltu'n parhau er mwyn ceisio cynrychioli'r amrywiaeth ehangach o bobl hŷn a sicrhau fy mod wedi chwilio am grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, neu sy'n llai gweledol, ac wedi ymweld â hwy.</p> <p>Sicrhau fy mod yn dal i godi ymwybyddiaeth o'm gwaith mewn grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig er mwyn annog ymgysylltu ehangach a mwy cynrychioladol.</p>
<p>Sicrhau bod fy ngwaith yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl hŷn ar draws y sbectwm nodweddion gwarchoddedig yn ei ddweud wrthyf ynglŷn â beth sy'n bwysig iddyn nhw, a bod fy ngwaith yn tynnu sylw penodol at effeithiau ar y rhai sydd â gwahanol gyfuniadau o nodweddion gwarchoddedig.</p>	<p>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu ehangach â phobl ar draws y sbectwm nodweddion gwarchoddedig er mwyn rhoi ystyriaeth benodol i unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant yn fy ngwaith.</p> <p>Sicrhau bod cyhoeddiadau'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r materion a'r effeithiau y tynnir sylw atynt gan amrywiaeth o bobl hŷn, a bod modd cael gafael arnynt yn rhwydd ar ffurf electronig a chopi caled.</p>
<p>Byddaf yn cryfhau'r asesiad o effaith sy'n sail i'm gwaith er mwyn sicrhau bod fy ngwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith nodweddion gwarchoddedig ar y canlyniad a geisir i bobl hŷn</p>	<p>Cyfarwyddwr Lles a Grymuso</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Defnyddio offeryn newydd i asesu effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol a'i wneud yn rhan annatod o waith yr holl staff perthnasol er mwyn ceisio gwella ansawdd y gwaith rwy'n ei wneud ar ran pobl hŷn.</p>

4. Byddaf yn sicrhau bod fy ngwaith wedi'i seilio fwyfwy ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau a bod agenda sy'n canolbwyntio ar hawliau'n cael ei datblygu drwy Gymru gyfan.			
Byddaf yn sicrhau bod staff yn cynnwys dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn eu gwaith.	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant craidd ar Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a sicrhau bod staff yn cael cymorth i integreiddio'r rhain yn eu gwaith.
Byddaf yn hyrwyddo Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ac ymwybyddiaeth o Oedraniaeth	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Darparu hyfforddiant a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Hwyluso gweithdai hyfforddiant gydag Awdurdodau Lleol ar Asesiadau Effaith a Chanllawiau Craffu a fydd yn cynnwys Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.
5. Grymuso ac arfogi pobl hŷn i herio'r gwahaniaethu y maent yn ei wynebu.			
Byddaf yn arfogi pobl hŷn â'r wybodaeth a'r offer i'w grymuso i herio gwahaniaethu	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Byddwn yn gwneud pobl hŷn yn fwy ymwybodol o wahaniaethu drwy ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ledled Cymru. Bydd fy ngwefan yn dal i ddarparu templedi, gwybodaeth ddefnyddiol a phecynnau cymorth eraill y gall pobl hŷn eu defnyddio i herio gwahaniaethu.
6. Hybu darlun cywir a chytbwys o bobl hŷn yn eu holl amrywiaeth, gwella dealltwriaeth o bobl hŷn a'u hanghenion a herio stereoteipiau, yn fy sefydliad i ac mewn sefydliadau eraill.			
Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth fy staff o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus	Dal i ddarparu sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth gan gynnwys yn fwyaf penodol Oedraniaeth ac Egwyddorion y Cenhedloedd

y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach.		Bob chwe mis	Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fydd yn cael eu hymgorffori yn nulliau gweithio fy staff. Sicrhau bod adolygiadau rheoli perfformiad a gynhelir bob chwe mis yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd wrth ymgorffori materion cydraddoldeb yng ngwaith y staff a cheisio gwella o hyd.
Byddaf yn cynyddu dyfnder dealltwriaeth y prif wasanaethau cyhoeddus o amrywiaeth pobl hŷn a'r graddau y mae nodweddion gwarchoddedig yn effeithio ar eu mynediad at wasanaethau a'u bywydau ehangach.	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus	Rhannu gwybodaeth a disgwyliadau sy'n ymwneud â phobl hŷn â chyrrff cyhoeddus ac asiantaethau allanol yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, drwy ddarparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, drwy fy nghyhoeddiadau ac ar fy ngwefan.
Byddaf yn herio stereoteipiau a syniadau negyddol am bobl hŷn yn barhaus ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer newid.	Y ddau Gyfarwyddwr	Parhaus Parhaus	Hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Ymgyrch 'Na i Oedraniaeth' ac Arwyr Bob Dydd. Yn fy ngwaith o ddydd i ddydd, codi ymwybyddiaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n ceisio siarad llai am bobl hŷn fel grŵp unfurf a mwy am anghenion a dyheadau'r amrywiaeth o unigolion hŷn a sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu.
Byddaf yn cryfhau ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol er mwyn cryfhau lleisiau pobl hŷn a chynyddu effaith ein gwaith.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus Parhaus	Ymgysylltu parhaus ac ehangach â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol. Sicrhau bod ymatebion i unrhyw ymgyngoriadau ac ymchwiliadau perthnasol yn ceisio adeiladu ar eu sefyllfa bresennol.

		Parhaus	Bydd adolygiadau sylweddol o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio cynnwys sefydliadau sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol fel cyngorwyr a chyfranwyr arbenigol.
7. Annog a chefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gydymffurfio â'u dyletswyddau eu hunain dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel y maent yn berthnasol i bobl hŷn a herio achosion difrifol o beidio â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol.			
Byddaf yn darparu canllawiau i gyrrff cyhoeddus sy'n gwneud newidiadau allweddol i'w gwasanaethau er mwyn eu helpu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn cysylltiad ag ymgysylltu, asesu effaith a chymesuredd.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus	Adolygu, cynnig adborth a darparu ymateb i ymgynghoriadau cyrff cyhoeddus eraill.
Byddaf yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu a newidiadau sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol neu anghymesur sylweddol ar bobl hŷn yn cael eu hadolygu'n barhaus.	Cyfarwyddwr Lles a Grymuso	Parhaus Parhaus	Adolygu gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus a darparu argymhellion cadarn er mwyn annog a hybu newid cadarnhaol. Os bydd cyrff cyhoeddus yn gwrthod gweithredu fy argymhellion, heb reswm da, byddaf yn eu galw i gyfrif, gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol os oes angen.

Atodiad C: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mabwysiadwyd Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (Penderfyniad 46/91) ar 16 Rhagfyr 1991. Anogwyd llywodraethau i'w hymgorffori yn eu rhaglenni cenedlaethol lle bynnag y gellid. Mae 18 o egwyddorion, y gellir eu grwpio dan bum thema: annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas.

Annibyniaeth

1. Dylai pobl hŷn allu cael bwyd, dŵr, lloches, dillad a gofal iechyd digonol drwy ddarpariaeth incwm, cefnogaeth i deuluoedd a chymunedau, a hunangymorth.
2. Dylai pobl hŷn gael y cyfle i weithio neu allu cael cyfleon eraill i greu incwm.
3. Dylai pobl hŷn allu cael rhan mewn penderfynu pa bryd ac ar ba gyflymder y dylid cilio o'r gweithlu.
4. Dylai pobl hŷn allu cael mynediad i raglenni addysg a hyfforddiant priodol.
5. Dylai pobl hŷn allu byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac y gellir ei addasu yn ôl dewis personol a newid mewn gallu.
6. Dylai pobl hŷn allu byw gartref am gyhyd ag sy'n bosibl.

Cyfranogiad

7. Dylai pobl hŷn barhau'n rhan o gymdeithas, cyfranogi o ddifri yn ffurfiant a gweithrediad polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau â chenedlaethau iau.
8. Dylai pobl hŷn allu ceisio a datblygu cyfleon i wasanaethu'r gymuned ac i wirfoddoli mewn swyddi priodol i'w diddordebau a'u galluoedd.
9. Dylai pobl hŷn allu ffurfio mudiadau neu gymdeithasau o bobl hŷn.

Gofal

10. Dylai pobl hŷn gael budd gofal a gwarchodaeth yn y teulu a'r gymuned yn unol â system werthoedd diwylliannol pob cymdeithas.
11. Dylai pobl hŷn allu cael gofal iechyd i'w helpu i gadw neu adennill y lefel orau bosib o les corfforol, meddyliol ac emosiynol ac i atal neu oedi dyfodiad salwch.
12. Dylai pobl hŷn allu cael gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol i hybu eu hannibyniaeth, eu gwarchodaeth a'u gofal.

13. Dylai pobl hŷn allu defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu gwarchodaeth, gwasanaeth ailsefydlu ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol mewn amgylchedd gwaraidd a diogel.
14. Dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol pan fyddant yn byw mewn unrhyw sefydliad nawdd, gofal neu driniaethol, gan gynnwys parch llawn i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd ac i'r hawl i wneud penderfyniadau am eu gofal ac ansawdd eu bywyd.

Hunangyflawniad

15. Dylai pobl hŷn allu dilyn cyfleon i ddatblygu eu potensial yn llawn.
16. Dylai pobl hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniannol cymdeithas.

Urddas

17. Dylai pobl hŷn allu byw mewn urddas a diogelwch a pheidio â chael eu hecsbloetio na'u cam-drin yn gorfforol nac yn feddyliol.
18. Dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg, beth bynnag fo'u hoed, eu rhyw, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu hanabledd neu unrhyw statws arall, a chael eu gwerthfawrogi heb ystyried eu cyfraniad economaidd.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yma: <http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm>

